**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU – TACSIS A MATERION ERAILL (ANSTATUDOL)**
**a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell drwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 16 Mawrth 2023**

YN BRESENNOL; y Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), y Cynghorwyr Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts a John Roberts

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion yn bresennol: Mrs Carwen Evans – Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad, Miss Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, Mr Gareth Rees – Uwch Swyddog Trwyddedu, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(11:00am-11:20am)

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Wyn Evans am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**Dim.

3 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 06 Hydref 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 06 Hydref 2022 yn rhai cywir.

**Materion yn codi**

Dim.

4 **Diweddariad Cyffredinol - Tacsis a materion eraill (Anstatudol)**Ystyriwyd y Diweddariad Cyffredinol ar dacsis a materion eraill (anstatudol). Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau am y gweithgarwch a wnaed gan yr Adain Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a hefyd i roi gwybod iddynt am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

Rhoddwyd diweddariad ar y canlynol:-

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Rhan 4 (Triniaethau Arbennig) - Cynllun trwyddedu cenedlaethol gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio)
- Perfformiad Blynyddol y Tîm Trwyddedu - Adroddiad Cyffredinol

CYTUNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:_________________**

**Dyddiad:___________________**